**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/1629/25

Andrew RT Davies MS
Chair
Economy, Trade, and Rural Affairs Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

17 Hydref 2025

Annwyl Andrew,

Ysgrifennaf i'ch hysbysu o'm bwriad i roi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i wneud rheoliadau ar ran Cymru mewn maes o gymhwysedd datganoledig, yn unol â'r pwerau a roddwyd iddi i wneud hynny yn Erthygl 38a(3) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 834/2007.

Mae Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Diwygio) 2025 yn ofynnol i gyflwyno dyddiadau dod i ben newydd ar gyfer tri rhanddirymiad organig. Mae'r rhanddirymiadau hyn yn berthnasol ar hyn o bryd ar gyfer defnyddio cywennod anorganig wrth gynhyrchu wyau organig, ar gyfer defnyddio gwm gellan anorganig mewn cynhyrchu organig ac ar gyfer cynnwys hyd at 5% o fwyd anifeiliaid protein anorganig ar gyfer moch a dofednod. Bydd yr OS arfaethedig yn ymestyn y rhanddirymiadau hyn tan 31 Rhagfyr 2026.

Bydd ymestyn y rhanddirymiadau tan 31 Rhagfyr 2026 yn darparu sicrwydd a sefydlogrwydd o ystyried y darlun economaidd presennol, yn lleihau'r effaith ariannol bosibl i gynhyrchwyr a gweithredwyr a allai gael eu gorfodi i wneud newidiadau strwythurol interim (cywennod), a'r baich ariannol a gweinyddol i fusnesau ar gyfer ceisiadau rhanddirymu dro ar ôl tro (gwm gellan).

Bydd y rhanddirymiadau hyn yn caniatáu i gynhyrchu organig barhau yn ddi-dor tra bod y farchnad yn datblygu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er bod gan Weinidogion Cymru y pwerau i wneud rheoliadau yn y maes hwn, mae'n bwysig osgoi anghysondebau diangen rhwng Cymru, yr Alban a Lloegr mewn rheoliadau technegol oherwydd natur rhyng-gysylltiedig ein marchnadoedd amaethyddol. Mae'r OS arfaethedig yn bwriadu ymestyn dyddiad dod i ben y rheoliadau sydd eisoes ar waith, yn hytrach na chreu unrhyw bolisi newydd, ac felly ni fydd unrhyw newid ymarferol i'r status quo. Mae'r OS yn estyniad o reoliadau blaenorol, a wnaed gan ddefnyddio'r un pwerau ar lefel Prydain Fawr.  Mae'r Fframwaith Cynhyrchu Organig yn darparu strwythur llywodraethu lle mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU ar ddatblygu rheoliadau yn y maes hwn.

Bydd yr OS yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' a chynigir gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ei bod yn cael ei osod gerbron y Senedd ar 22 Hydref 2025. Ymgynghorodd cydweithwyr DEFRA â swyddogion Llywodraeth Cymru yn rheolaidd drwy gydol y broses o ddatblygu'r rheoliadau hyn a byddant yn parhau i weithio'n agos gyda'u cymheiriaid i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r OS.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs